# ATODLEN 2

## Y BERTHYNAS RHWNG YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL A SAC

## RHAN 1

## COD YMARFER

*Paratoi a chymeradwyo etc*

1 (1) Rhaid i SAC a'r Archwilydd Cyffredinol baratoi cod ymarfer ar y cyd sy'n ymdrin â'r berthynas rhwng SAC a'r Archwilydd Cyffredinol.

(2) Wrth wneud hynny, rhaid iddynt geisio adlewyrchu'r egwyddor a nodir yn adran 8(1) a (2).

(3) Rhaid i SAC a'r Archwilydd Cyffredinol adolygu'r cod ar y cyd yn rheolaidd a'i ddiwygio fel y bo'n briodol.

(4) Rhaid i'r cod (gan gynnwys unrhyw ddiwygiad) gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(5) At y diben hwn, rhaid i gadeirydd SAC a'r Archwilydd Cyffredinol osod y cod (neu'r diwygiad) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

(6) Rhaid i SAC a'r Archwilydd Cyffredinol ill dau gydymffurfio â chod sydd wedi ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(7) Rhaid i SAC a'r Archwilydd Cyffredinol drefnu i god a gymeradwywyd gael ei gyhoeddi.

*Cynnwys*

2 (1) Rhaid i'r cod gynnwys—

(a) darpariaeth ynghylch sut y mae SAC i fonitro swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol at ddibenion adran 17(1);

(b) darpariaeth ynghylch sut y mae cyngor i gael ei roi gan SAC i'r Archwilydd Cyffredinol at ddibenion adran 17(2) (gan gynnwys natur y cyngor sydd i'w roi);

(c) darpariaeth ynghylch safonau ar gyfer llywodraethu corfforaethol.

(2) Caniateir i'r cod gynnwys darpariaeth ynghylch unrhyw fater arall sy'n berthnasol i'r berthynas rhwng SAC a'r Archwilydd Cyffredinol.